
# Ysgol y Bannau

*gan Marion Evans, Pennaeth*



Cawsom llawer o hwyl wrth deithio yn ôl i Gwm Rhyd y Rhosyn gyda Mr.Edward Morus Jones. Braf oedd gallu canu yr hen ffefrynau – megis “Het tri chornel”, “Fuoch chi ‘rioed yn morio?” a “ Mam wnaeth gôt i mi”.



Diolch i Rhian Davies am drefnu diwrnod llawn gweithgareddau chwaraeon gyda myfyrwyr Coleg Aberhonddu. Roedd y plant wrth eu boddau yn dysgu sgiliau newydd. Rydym yn edrych ymlaen i wneud hyn eto!



Diolch i Huw Daniels a Louise Hogan am berfformiad hyfryd o gerddoriaeth Baroque.



Roedd y plant ieuengaf a’r staff wrth eu boddau yn dathlu diwrnod T.Llew Jones drwy wisgo fel môr ladron!









Pleser oedd croesawu y Seren Paralympaidd lleol, Rob Davies, i’r ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando arno’n sisrad am ei brofiadau, yn edrych ar ei fedal arian anhygoel ac yn gofyn cwestiynau di-ri iddo. Ysbrydoledig!



Diolch i Menter Brycheiniog a Maesyfed am drefnu diwrnod bywiog ac egniol iawn ar gyfer pob plentyn yn yr ysgol. Braf oedd croesawu Tudur Phillips – y clocsiwr o fri, i gynnal gweithdai clocsio gyda’n plant. Cafodd y plant hwyl yn ymarfer ei symudiadau, neidio dros yr hances boced a gwylio Tudur Phillips yn dangos ei gamp record byd yn neidio’r gannwyll.

Ar Dachwedd yr ugeinfed dathlwyd Diwrnod Byd-eang y Plant, diwrnod o weithredu a nodi a mabwysiadu’r Confensiwn ar Hawliau’r Plentyn. Cafwyd ddiwrnod llawn hwyl a oedd hefyd a neges pwysig. Cawsom y cyfle i hyrwyddo a dathlu hawliau ein plant a fydd yn helpu i adeiladu byd gwell iddyn nhw. Y thêm y flwyddyn hon oedd "Cynhwysiad ar gyfer pob plentyn".
Diolch enfawr i Gyfeillion yr Ysgol a oedd wedi bod wrthi'n paratoi gweithgareddau hwylus ar gyfer yr ysgol. Daeth dwy ymarferwr lleol , Bethan a Tessa, i arwain ar y diwrnod gyda gweithgareddau meddylgarwch – symud, dawns a chelf. Bydd arddangosfa o’u gwaith i’w weld yn y Theatr yn gynnar yn y flwyddyn.



Aeth criw o blant blwyddyn 5 a 6 am dro o amgylch tref Aberhonddu. Pwrpas yr ymweliad oedd i ddosbarthu posteri mewn siopau a busnesau lle mae staff yn gallu siarad neu yn ddysgwyr Cymraeg. Rydym yn cyd-weithio gyda Menter Brycheiniog ar y prosiect - maen nhw wedi creu y posteri hyfryd i ni. Cadwch lygad allan am y posteri pan fyddwch yn siopa yn y dref, a gadewch wybod os ydych yn ymwybodol o unrhyw siop / fusnes sydd â siaradwyr Cymraeg nad ydynt wedi derbyn poster eto! A gwnewch yn siwr eich bod yn manteisio ar bob cyfle i siarad Cymraeg yn Aberhonddu!

Llongyfarchiadau i bawb o flwyddyn 3 i 6 a oedd wedi cymryd rhan yn y trawsgwlad ar safle Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Llongyfarchiadau arbennig i’r criw a ddaeth yn y pump cyntaf o fewn eu categoriau oedran. Mae rhedwyr bendigedig yma yn Ysgol y Bannau!



Cawsom gystadlu brwd ac roedd y bwyd yn fendigedig! Llongyfarchiadau i Iolo, Isca a Nerys am ddod i’r brig ac i Nerys am fynd ymlaen i’r rownd rhanbarthol yn Llanfair ym Muallt.





